

Swydd Wag i Breswylwyr ClwydAlyn: Teiliwr Dan Hyfforddiant

Rydym yn falch o gyhoeddi cyfle rhagorol yn unig i breswylwyr cymdeithas dai ClwydAlyn. Mae ein partner, Independence Solutions, yn cynnig swydd Teiliwr Dan Hyfforddiant. Dyma gyfle gwych i ddysgu sgil werthfawr a chael cymhwyster tra'n gweithio'n llawn amser.

Manylion y Swydd:

- Teitl: Teiliwr Dan Hyfforddiant
- Lleoliad: Pensarn
- Math o Gyflogaeth: Parhaol - Llawnd Amser
- Cyflog: Isafswm Cyflog Cenedlaethol (yn cynyddu unwaith wedi'i gymhwyso)

Mae Independence Solutions yn ddarparwr blaenllaw o wasanaethau o safon uchel, yn bennaf ar gyfer awdurdodau lleol a thai cymdeithasol. Rydym yn adnabyddus am ein safon gwaith a'n boddhad cwsmeriaid eithriadol. Rydym wedi ymrwmo i feithrin y genhedlaeth nesaf o grefftwyr medrus ac yn gyffrous i gynnig cyfle hyfforddi i unigolyn cymhellgar sydd eisiau dysgu'r grefft deilsio.

Disgrifiad Swydd:

Fel Teiliwr Dan Hyfforddiant, byddwch yn derbyn hyfforddiant cynhwysfawr, ymarferol ym mhob agwedd ar deilsio, o baratodau i orffen. Byddwch yn gweithio ochr yn ochr â theilswyr profiadol, gan ennill sgiliau a gwybodaeth werthfawr i adeiladu gyrfa lwyddiannus.

Prif Gyfrifoldebau:

- Cynorthwyo gyda pharatoi arwynebau ar gyfer teilsio.
- Cymysgu a chymhwyso gludyddion a graut.
- Torri a gosod teils yn fanwl gywir.
- Sicrhau gorffeniadau glân ac union ar bob prosiect teilsio.
- Cynnal amgylchedd gwaith glân a diogel.
- Dilyn cyfarwyddiadau a dysgu gan deilswyr profiadol.

Beth Mae Independence Solutions yn Gynnig:

- Hyfforddiant a Mentora: Derbyn hyfforddiant ar y swydd gan weithwyr proffesiynol profiadol.
- Cynnydd Gyrfa: Cyfleoedd i symud ymlaen wrth i chi ddatblygu eich sgiliau.
- Amgylchedd Cefnogol: Ymunwch â thîm sy'n gwerthfawrogi dysgu a datblygiad proffesiynol.
- Cyflog Cystadleuol: Ennill wrth i chi ddysgu gyda chyflog cystadleuol.

Gofynion:

- Dim profiad blaenorol mewn teilsio yn angenrheidiol, ond mae angen awydd cryf i ddysgu ac agwedd gadarnhaol.
- Sylw da i fanylion a'r ymrwymiad i gynhyrchu gwaith o ansawdd uchel.
- Ffitrwydd corfforol a'r gallu i wneud llafur llaw.
- Sgiliau mathemateg sylfaenol ar gyfer mesur a thorri teils.
- Dibynadwy a phrydlon gyda moeseg gwaith gryf.
- Sgiliau cyfathrebu da a'r gallu i weithio fel rhan o dîm.
- Nid oes angen trwydded yrru tra'n hyfforddi, ond rhaid i chi fod yn gweithio tuag at gael Trwydded Llawn y DU cyn cwblhau eich hyfforddiant.

•

Sut i Wneud Cais:

Os ydych yn awyddus i ddechrau eich gyrfa mewn teilsio ac yn barod i ymrwymo i ddysgu crefft werthfawr, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych! Anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol byr yn egluro pam rydych yn ymddiddori yn y cyfle hyfforddi hwn i sales@independence-solutions.co.uk.

Cymerwch y cam cyntaf tuag at yrfa werth chweil gyda Independence Solutions a dewch yn deiliwr medrus!

Sylwer: Cyflogaeth gydag Independence Solutions yw hon, nid gyda ClwydAlyn